



9 Ionawr 2024

Bridwyr planhigion yn y DU sydd â Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir: gwybodaeth bwysig

Gwnaethom ysgrifennu at ddeiliaid Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir yn 2023 yn gofyn am wybodaeth ychwanegol yn ymwneud â Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir. Mae'r llythyr hwn yn gwneud cais ffurfiol am y wybodaeth hon.

Diolch yn fawr os ydych eisoes wedi ymateb i ni gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani a dogfennaeth ategol. Gallwch fod yn sicr ein bod yn ymdrin â'ch cais ac nad oes angen i chi gymryd camau pellach.

Mae Rheolwr y Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion, o dan reoliad 6(1)(b) o Reoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio) (Ymadael â UE) 2019, yn gofyn i ddeiliaid Hawl Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir ddarparu cyfeiriad at ddibenion gohebiaeth yn y DU neu fanylion asiant yn y DU. **Os hoffech gadw eich Hawl Amrywogaethau Planhigion, darparwch y wybodaeth hon erbyn 29 Chwefror 2024.**

Oni wnewch hynny erbyn 29 Chwefror 2024, gall y Rheolwr derfynu eich Hawl Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir lle mae'r Rheolwr wedi'i fodloni bod y deiliad wedi methu â chydymffurfio â'r cais hwn.

Yr hyn y mae angen i chi ei wneud

Os ydych yn meddu ar Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir, bydd angen i chi roi gwybodaeth ychwanegol i ni ynglŷn â'r hawliau hynny am weddill eu hoes.

Anfonwch e-bost i eupvrtransferukpbr@apha.gov.uk cyn gynted â phosibl sy'n cynnwys y canlynol:

1. Cadarnhad eich bod yn meddu ar Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir a'ch bod am barhau i feddu ar yr hawliau hyn ar ôl 1 Ionawr 2024.

2. Cadarnhad o'r amrywogaethau rydych am barhau i feddu ar hawliau ar eu cyfer

- Agorwch y daenlen isod i ddod o hyd i'ch enw yng ngholofn H (rydym wedi didoli'r data yn nhrefn yr wyddor). Nodwch mai'r daenlen hon yw'r rhestr wreiddiol a ddarparwyd i APHA gan y CPVO cyn y diwygiadau a bydd yn cynnwys Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir sydd wedi dirwyn i ben ers hynny.
- Llenwch fanylion ar gyfer pob un o'ch rhesi drwy nodi 'Ydw' yng ngholofn H ar gyfer yr amrywogaethau hynny rydych am barhau i feddu ar hawliau ar eu cyfer, llenwch ddyddiad heddiw yng ngholofn I ac ychwanegwch y dyddiad y gwnaethoch lenwi ffurflen PSV11 (a grybwyllwyd ym mhwynt 3 isod) yng ngholofn J.
- Copiwch a gludwch y rhesi yn eich adran, gan gynnwys colofnau A i J i daenlen newydd a'i hatodi i'ch e-bost. Er mwyn hwyluso'r gwaith hidlo, mae'r data wedi'u didoli ac wedi'u rhestru yn ôl Deiliad yr Hawliau – gweler yr enghraifft isod.

	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J
1	EU Grant Number	Variety Approved Name	Breeders Reference	Botanical Name	Grant Start Date	Grant End Date	Holder of Right	Continue Holder of Right	Date Confirmed	Auth of Agent PSV11 provided
2	1####	Example Only	example1	Solanum tuberosum L.	16/11/2015	31/12/2045	Name Of Rightholder	Yes	02 January 2023	02 January 2023
3	2####	Second Example	Example2	Aster alpinus L.	01/01/2017	31/12/2042	Name Of Rightholder	Yes	02 January 2023	02 January 2023
4										

Gweler Atodiad 1 am y rhestr o Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir.



3. Cyfeiriad y DU ar gyfer gohebiaeth

Llenwch a llofnodwch y ffurflen PVS11 isod a'i hatodi i'ch e-bost:

- Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad yn y DU at ddibenion gohebiaeth.
- Ticiwch yr ail flwch ticio sy'n dweud 'Rheolwr yr Hawliau Amrywogaethau Planhigion yn unol â Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion 1998;'
- Gadewch y tabl gyda rhif cyfeirnod Rhywogaethau/Bridwyr/rhif AFP yn wag.
- Llenwch eich enw o dan y tabl lle mae'n dweud 'Enw mewn PRIFLYTHRENNAU (nid oes angen i chi gwblhau eich llofnod)
- Cliciwch ar 'Cloi'r ffurflen hon' ac yna cadwch gopi o'r ffurflen i'w hatodi i'ch e-bost.

Gweler Atodiad 2 am ffurflen Awdurdodi Asiant (PVS11) y DU.

4. Manylion unrhyw newidiadau i berchnogaeth Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir ers 31 Rhagfyr 2020

Os ydych wedi cymryd perchenogaeth o Hawl Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir gan rywun arall, bydd angen i chi gwblhau ffurflen PVS10 isod gyda'ch manylion. Yna, atodwch hon i'r e-bost.

Gweler Atodiad 3 am ffurflen Aseinio Hawliau (PVS10) y DU.

Yr hyn y mae angen i chi ei wneud os hoffech ildio eich Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir

Os nad ydych am feddu ar Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir mwyach, anfonwch e-bost i eupvrtransferukpbr@apha.gov.uk cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi gwybod i ni.

- Agorwch y daenlen isod i ddod o hyd i'ch enw yng ngholofn H (rydym wedi didoli'r data yn nhrefn yr wyddor)
- Copïwch a gludwch y rhesi yn eich adran, gan gynnwys colofnau A i J i daenlen newydd a'i hatodi i'ch e-bost.

Gweler Atodiad 1 am y rhestr o Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir.



Animal &
Plant Health
Agency

Noder nad oes ffi yn gysylltiedig â phrosesu'r wybodaeth hon.

Ynglwm wrth y llythyr gwybodaeth hwn mae'r canlynol:

Atodiad 1 - Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir

Atodiad 2 - Ffurflen Awdurdodi Asiant (PVS11)

Atodiad 3 - Ffurflen Aseinio Hawliau (PVS10)

Cwestiynau am yr Hysbysiad hwn Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost i eupvrtransferukpbr@apha.gov.uk gyda manylion Deiliad yr Hawliau a rhif(au) dyroddi'r UE y mae eich ymholiad yn ymwneud â nhw (mae'r rhifau hyn yng ngholofn A ar y daenlen yn adran 2) yn y pennawd testun.

Yn gywir,

Tasglu Amrywogaethau Planhigion a Hadau

Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion y DU,

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Atodiad 1 - Hawliau Amrywogaethau Planhigion yr UE a Gedwir



Retained EU Plant
Variety Rights.xlsx

Atodiad 2 - Ffurflen Awdurdodi Asiant (PVS11)



form-pvs11.pdf

Atodiad 3 - Ffurflen Aseinio Hawliau (PVS10)



form-pvs10.pdf